

Canllawiau Cymru Gyfan: Penderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Bywyd

Fersiwn 11 Mehefin 2021

Canllawiau yn seiliedig ar dystiolaeth arfer dda i gefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddarparu gofal cyfannol wedi'i phersonoli i'r rhai sydd yn ystod dyddiau ac oriau olaf bywyd

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gofnod clinigol cyfrinachol y claf

Nodyn pwysig:

Os **NAD** yw'r claf yn nyddiau neu oriau olaf bywyd, **NI** ddylid defnyddio'r Canllawiau Penderfyniadau.

Mae set gyflawn y Canllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Penderfyniadau Gofal (fersiwn 11) yn cynnwys:

- Dogfen A - Y brif ddogfen Canllawiau Penderfyniadau Gofal (4 tudalen)
- Dogfen B - Siart Asesu Symptomau Cleifion
- Dogfen C - Cofnod Gweinyddu Meddyginiaeth PRN Cymunedol
- Dogfen D - Taflen Adolygu Achos Unigol (ar gyfer tystio i'r gofal a ddarperir)
- Dogfen E - Canllawiau Rheoli Symptomau

Mae Atodiadau Penderfyniadau Gofal ychwanegol hefyd ar gael:

- Atodiad Rheoli Symptomau Covid-19
- Atodiad Rheoli Diabetes
- Atodiad: Ystyried amrywiaeth wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Penderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Bywyd

Cyd-destun ar gyfer y Canllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Penderfyniadau Gofal (All Wales Care Decisions Guidance (CDG)):

- **Mae ymwybyddiaeth am sut i ddarparu'r gofal gorau posib yn berthnasol i bawb.** Mae pobl yng Nghymru yn marw mewn llawer o wahanol leoliadau: mewn ysbytai aciwt neu gymunedol; yn eu cartref eu hunain, neu gartref perthynas neu ffrind; mewn cartrefi gofal preswyl neu nyrsio; mewn hosbisau, carchardai ac ati. Mae angen gallu darparu'r gofal gorau posibl, beth bynnag fo'r lleoliad a hynny'r un peth i bawb. Mae'r Canllawiau 4 tudalen (Dogfen A) yn rhoi arweiniad am y pwyntiau pwysig i'w hystyried ar gyfer pob unigolyn. Y nod yw eich cefnogi a'ch grymuso, fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, waeth beth yw eich rôl neu'ch arbenigedd, i allu darparu gofal o ansawdd uchel yn ystod dyddiau olaf bywyd. Lle mae angen cefnogaeth neu gyngor pellach, mae gofal lliniarol arbenigol (gan gynnwys gwasanaeth y tu allan i oriau) ar gael 24/7 ym mhob ardal Bwrdd Iechyd ar draws Cymru.
- Mae'r Canllawiau yn adlewyrchu'r angen i **bersonoli a chanolbwyntio ar y person sy'n cael gofal.** Mae'r Canllawiau'n argymhell y dylid cymryd pob cyfle i drafod, gyda'r person sy'n marw (os yn glinigol bosibl) a chyda'r rhai sy'n bwysig iddynt, eu dewisiadau gofal, anghenion, nodau a dymuniadau, yn ogystal â rhannu penderfyniadau am eu gofal.
- Mae'r **Canllawiau arfer dda seiliedig ar dystiolaeth** yn cael eu datblygu, eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd gan arbenigwyr yng Nghymru. (Canllawiau NICE: Gofalu am oedolion sy'n marw yn ystod dyddiau olaf bywyd, NG31 (2015); Pum Blaenoriaeth Gofal: Cynghrair Arweinyddiaeth Gofal y Claf sy'n Marw, Adroddiad Un Cyfle i'w gael yn lawn (2014).

Defnydd wedi'i dargedu:

- Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i **oedolion lle y rhagwelir neu y disgwylir marwolaeth yn yr ychydig ddyddiau neu oriau dilynol.**

Cyn dechrau ystyried y canllawiau:

- Argymhellir, lle bynnag y bo'n bosibl, y dylai staff meddygol a nyrsio gynnal asesiad clinigol ar y cyd. Dylai uwch glinigydd fod yn rhan o wneud penderfyniadau cychwynnol.
- Mae'r term 'claf' yn cael ei ddefnyddio er hwylustod i gynrychioli pobl sy'n marw ym mhob lleoliad.

Pwyntiau cyffredinol:

- Gellir defnyddio'r Canllawiau cyffredinol 4 tudalen (Dogfen A) gyda'r dogfennau Penderfyniadau Gofal ategol (ee Arweiniad Rheoli Symptomau, Siart Asesu Symptomau) fel y bo' angen.
- Dylid rhagnodi pob meddyginiaeth yn y siartiau presgripsiwn priodol, fel y'u defnyddir yn lleol.
- Gall cwblhau'r brif ddogfen Canllawiau weithredu fel offeryn cyfathrebu effeithiol ar gyfer timau gan atal dyblygu gwaith fel cynnal yr un sgysiau dro ar ôl tro, a all beri gofid i gleifion. Os nad yw trafodaethau a phenderfyniadau a'r gofal a roddir yn cael eu cofnodi yn y Canllawiau (neu yn rhywle arall) nid oes **unrhyw dystiolaeth neu gofnod** eu bod wedi digwydd. Gall defnyddio'r Canllawiau hefyd ddangos eich bod yn gweithio gyda'ch gilydd fel tîm o staff, gan ddangos parch a thystiolaeth fod urddas a dymuniadau'r person yn cael eu cymryd o ddifrif.
- Gall anghenion a dymuniadau pobl ee eu credoau a'u dewis iaith, newid pan fyddant yn gwybod eu bod yn marw.
- Gall y ddogfen ganllaw 'Atodiad Ystyried Amrywiaeth' gynnig arweiniad pellach wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Cwblhewch a dychwelwch yr Adolygiad Achos ar gyfer pob claf. Mae hyn hefyd yn dystiolaeth o'r gofal a roddwyd.

Defnyddio'r Prif Ganllawiau – Dogfen A:

- Mae'r Prif Ganllawiau yn gweithredu fel dogfen i'ch atgoffa, eich cefnogi a'ch arwain i ddarparu'r gofal gorau posibl. Nid yw'n disodli barn glinigol. Crynhowch y blaenoriaethau a phenderfyniadau ar gyfer y claf, y rhai sy'n bwysig iddyn nhw a'r tîm clinigol yn yr adrannau perthnasol. Cofnodwch yn fyr y cynllun gofal unigol y cytunwyd arno ac, os oes angen, ysgrifennwch yn llawnach yng nghofnod clinigol y claf. Sicrhewch fod yr uwch benderfynwr clinigol yn llofnodi tudalen 4. Cofnodwch yr holl benderfyniadau pellach a chynnydd yng nghofnod clinigol y claf.
- Dylai'r ddogfen hon gael ei ffeilio yn adran gyfredol cofnodion clinigol y claf.

Pwy ddylai gwblhau pa adrannau o'r prif Ganllawiau :

- Dylai timau unigol gytuno pa adrannau penodol y dylid eu llenwi gan feddygon neu nyrsys yn dibynnu ar eu hamgylchiadau lleol. Yn gyffredinol, gall meddygon arwain ar gwblhau tudalennau 1, 2 a 4, gyda nyrsys yn arwain y gwaith o gwblhau tudalen 3.

Enw:

Dyddiad Geni:

Cyfeiriad:

Rhif GIG:

Canllawiau Cymru Gyfan: Penderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Bywyd

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gofnod clinigol cyfrinachol y claf. (Gweler y cyd-destun ar gyfer ei ddefnyddio ar y dudalen flaenorol.) *****Cwblhewch yn ddwyieithog neu yn Saesneg** i atal y posibilrwydd o unrhyw oedi wrth ddarparu gofal ar yr adeg holl bwysig hon (yn ystod yr ychydig ddyddiau neu oriau olaf bywyd), os gwelwch yn dda.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg hefyd. / This document is also available in English.

Asesiad clinigol:

A yw'r tîm clinigol yn cytuno bod y claf yn ystod dyddiau olaf ei fywyd? Ydi Nac ydi
Cofnodwch y newidiadau sy'n gwneud i'r tîm feddwl fod y person hwn yn awr yn marw:

Pwysig: Os **NAD** yw'r claf yn ystod dyddiau olaf ei fywyd, **NI** ddylid defnyddio'r Canllawiau Penderfyniadau Gofal – gweler tudalen 4.

A ystyriwyd rhesymau dros y dirywiad y gellir eu gwyrddroi? Do Naddo
Sylwadau:

Beth yw'r prif gyflwr meddygol sy'n debygol o fod yn gyfrifol am y dirywiad hwn?

Ffocws ar yr unigolyn – dealltwriaeth a blaenoriaethau'r claf:

Dylid rhoi cyfleoedd i gleifion drafod a chynllunio eu gofal unigol.

A yw'r claf yn ymwybodol y bernir ei fod yn ystod dyddiau olaf ei fywyd? Ydi Nac ydi **NEU**
Mae'r claf yn methu trafod (am reswm clinigol)* Mae'r claf wedi datgan nad yw eisiau trafod*
Dogfennwch unrhyw drafodaethau gyda'r claf ynghylch ei ymwybyddiaeth o farw (fel y gall eraill adeiladu ar y wybodaeth /osgoi dyblygu).

Cofnodwch yr hyn sydd bwysicaf iddynt gan gynnwys unrhyw flaenoriaethau, anghenion neu bryderon sydd ganddynt / y gwyddoch eu bod ganddynt, gan ystyried eu gallu i wneud penderfyniadau.*

* Cynhwyswch a thrafodwch gyda'r claf, ac fel y bo'n briodol, y rhai sy'n bwysig i'r claf - gweler tudalen 4

Gwybodaeth gyfannol bwysig am y claf:

Noder unrhyw wybodaeth feddygol, nyrsio, cymdeithasol neu wybodaeth bwysig arall a allai effeithio, neu y mae angen ei ystyried, wrth ddarparu gofal unigol i gleifion. Gall y rhain gynnwys: anabledd ee clyw, golwg, symudedd; iaith, hil, diwylliant, crefydd a chred; cyfeiriadedd rhywiol; hunaniaeth rhyw, eu perthnasau pwysig; pryderon, iechyd meddwl; ac unrhyw rôl ofalu y maent fel arfer yn ymgymryd â hwy. *Am ganllawiau mwy ymarferol am hyn gweler Penderfyniadau Gofal 'Atodiad ar Ystyried Amrywiaeth' (Care Decisions 'Considering Diversity Appendix'.)*
Dalier Sylw: Mae'n ddyletswydd statudol i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu galluogi i siarad eu mamiaith.
Mae'n well gan y claf gyfathrebu yn y Gymraeg

Man gofal a ffefrir gan y claf:

Ble hoffai'r claf hwn dderbyn gofal yn ystod dyddiau olaf ei fywyd?

A yw hyn yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd? Ydi Nac ydi Heb fynegi neu'n methu â mynegi ffafriaeth
Os mai 'nac ydi' yw'r ateb, pam ddim?

Enw:

Dyddiad Geni:

Cyfeiriad:

Rhif GIG:

Gweithiwr Iechyd Proffesiynol sy'n cwblhau (llythrenau cyntaf).....

Dyddiad.....

Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw (Advance Care Planning - ACP) a Chynllunio Gofal i'r Dyfodol (Future Care Planning - FCP): *Cyfeiriwch at arweiniad cenedlaethol / lleol*

A yw'r claf wedi mynegi dymuniadau a hoffterau mewn Cynllun Gofal Ymlaen Llaw? Do Naddo Ddim yn gwybod Os ydyw, sut mae'r dymuniadau hyn wedi'u hystyried?

A yw'r claf wedi cwblhau dogfen Penderfyniad Ymlaen Llaw i wrthod Triniaeth (Advance Decision to Refuse Treatment - ADRT)? Do Naddo Ddim yn gwybod
 A oes Pŵer Atwrnai Parhaol (Lasting Power of Attorney - LPA) cofrestredig ar gyfer Iechyd a Lles? Oes Na Ddim yn gwybod
 A oes Cynllun Gofal Ymlaen Llaw (FCP) yn ei le? Oes Na Ddim yn gwybod

A yw'r claf wedi mynegi penderfyniad ar y gofrestr rhoddwyr organau? (Gellir gwirio ar: 03000 20 30 40) Do Naddo
 A yw'r claf wedi optio mewn neu wedi optio allan neu a yw wedi enwi cynrychiolydd penodedig ?
 Os nad yw'r claf **wedi optio allan**, trafodwch y mater gyda'r claf / perthynas agosaf. Os yw rhoi meinwe yn bosibilrwydd cyfeiriwch at y Ganolfan Gyfeirio Genedlaethol ar gyfer rhoi meinwe ar 0800 432 0559.
 Gweithred:

Cynllun rheoli meddygol:

Dylid cynnwys tystiolaeth am gynllun rheoli meddygol y cytunwyd arno, yn enwedig o ran Cynllun Gofal Ymlaen Llaw / Cynllun Gofal i'r Dyfodol, ymchwiliadau pellach, uwchgyfeirio gofal ac ymyriadau y gellir eu hystyried.

Penderfyniadau hydradiad:

Dylid cynnwys tystiolaeth am unrhyw drafodaethau a phenderfyniadau ynghylch hydradiad (gan gynnwys risg / budd hylifau trwy'r geg / neu'r defnydd o hylifau trwy wythien) gyda'r claf / y rhai sy'n bwysig i'r claf.

Penderfyniadau maeth:

Dylid cynnwys tystiolaeth am unrhyw drafodaethau a phenderfyniadau am faeth (gan gynnwys bwydo artiffisial trwy diwb PEG / NG) gyda'r claf / y rhai sy'n bwysig i'r claf.

Statws Adfywio Cardio-Pwlmonaidd (CPR) - Marwolaeth Naturiol a Ragwelir ac a Dderbynnir (Natural Anticipated and Accepted Death - NAAD): *Cyfeiriwch at bolisi DNACPR Cymru gyfan*

Dylid cynnwys tystiolaeth am unrhyw drafodaeth gyda'r claf a'r rhai sy'n bwysig i'r claf ynglŷn â chaniatáu i farwolaeth naturiol ddigwydd, a chwblhau ffurflenni priodol (cyfeiriwch at gofnodion llawnach yng nghofnod y claf os oes angen).

Enw:

Dyddiad Geni:

Cyfeiriad:

Rhif GIG:

Gweithiwr Iechyd Proffesiynol sy'n

cwblhau (llythrenau

cyntaf).....

Dyddiad.....

Cymorth diwyllianol, ysbrydol a chrefyddol ar gyfer cleifion a'r rhai sy'n bwysig iddyn nhw:

Ystyriwch anghenion unigol y claf a'r rhai sy'n bwysig i'r claf. Mae'r Atodiad Ystyried Amrywiaeth yn rhoi cyngor ymarferol. Trafodwch unrhyw flaenoriaethau penodol a allai effeithio ar ofal cleifion unigol. Dylid cadw cofnod o'r pethau a wnaed:

Cynllun gofal unigol

Diweddarwch y cynlluniau gofal nyrsio a'r asesiadau risg presennol Cyfeiriwch at y Siart Asesu Symptomau

Canolbwyntiwch ar fesurau fydd yn rhoi mwy o gysur i'r claf. Stopiwch ddefnyddio ymyriadau nad ydynt yn rhoi budd symptomatig mwyach. Dylid cofnodi penderfyniadau yn ymwneud â'r canlynol:

- Monitro arwyddion hanfodol (ee Sgoriau Rhybudd Cynnar y GIG mewn ysbyty)
- Profion gwaed rheolaidd - Archwiliadau neu apwyntiadau
- Monitro lefelau siwgr yn y gwaed * - Rheoli Dyfais Gardiaidd Mewnblanadwy *
- Arall:

Diweddarwch y cynlluniau gofal nyrsio ac asesiadau risg presennol yn unol â'r penderfyniadau uchod.

Yn benodol, bydd angen delio gyda'r agweddau pwysig canlynol ar ofal yn ystod dyddiau olaf bywyd:

- Gofal y geg - Cyfathrebu - Asesiad symptomau - Hydradiad
- Croen - Yr amgylchedd: Preifatrwydd / Ystafell sengl - Meddyginiaeth y rhagwelir y bydd ei angen
- Maeth - Y Bledren / Coluddyn - Rheoli lefel y siwgr yn y gwaed*

Rheoli Symptomau

- Rhesymolwch y feddyginiaeth a roddir ar hyn o bryd.
- Aseswch y claf am symptomau sy'n debygol o ddigwydd yn ystod dyddiau olaf bywyd (gan gynnwys poen, diffyg anadl, cyfog a thafllu fyny, pryder, deliriwm, cynnwrf a synau anadlol swllyd).
- Cadwch gofnod o'r canfyddiadau ar y Siart Asesu Symptomau.
- Rhagnodwch feddyginiaethau y gellir eu rhagweld, gyda manylion penodol i'r claf ar gyfer eu defnydd, dosio a llwybr rhoi.
- Cyfeiriwch at y Canllaw Penderfyniadau Gofal a Rheoli Symptomau, os oes angen.

*Cyfeiriwch at ganllawiau lleol / cenedlaethol fel:

- Atodiad Rheoli Penderfyniadau Gofal Diabetes neu Argymhellion Gofal Clinigol EOLC Diabetes UK (2018)
- Dogfen Weithredol Cymru Gyfan ar gyfer Gweithredu Anafiadau ac Achosion Marwolaeth (ICD) (canllawiau) (2019)

Adolygiad parhaus

Diweddarwch y cynlluniau gofal nyrsio a'r asesiadau risg presennol

Parhewch i fonitro **o leiaf bob dydd** am arwyddion a symptomau, er enghraifft poen, diffyg anadl, cyfog a thafllu fyny, pryder, deliriwm, cynnwrf a synau anadlol swllyd. Cysylltwch ag uwch glinigwr os oes unrhyw bryderon. Dylech wneud y canlynol:

- Cynnal adolygiad symptomau rheolaidd, a thrafod gyda chydweithwyr uwch os oes angen.
- Cynnal cyfathrebu dwy ffordd yn aml gyda'r claf (os yw'n gallu) a'r rhai sy'n bwysig i'r claf, gan ystyried y gall blaenoriaethau cleifion newid dros amser.
- Trafod cynnydd cleifion (ac unrhyw newidiadau) gyda'r tîm amlddisgyblaethol.
- Ymgynghori â'ch Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol Lleol i gael cyngor pellach os oes angen.

Enw:
Dyddiad Geni:
Cyfeiriad:
Rhif GIG:

Gweithiwr Iechyd Proffesiynol sy'n cwblhau (llythrenau cyntaf).....
Dyddiad.....

Deall blaenoriaethau'r rhai sy'n bwysig i'r claf:

Gyda chaniatâd y claf, dylid rhoi cyfleoedd i'w anwyliaid drafod a helpu i gynllunio gofal y claf. Dylid cynnig gwybodaeth (gan gynnwys deunydd ysgrifenedig) am y rôl y gallant ei chwarae i gymryd rhan a chefnogi'r gofal ar yr adeg hon.

A yw'r rhai sy'n bwysig i'r claf yn deall bod y claf yn marw? Ydynt Nac ydynt *NEU*
Nid oes gan y claf unrhyw bobl sy'n bwysig i'r claf / nid yw'r claf eisiau i unrhyw un gael ei hysbysu

Enw'r unigolyn allweddol a ddylai gymryd rhan / gael ei hysbysu:
Perthynas â'r claf:
Cofnodwch y trafodaethau a gafwyd gyda'r rhai sy'n bwysig i'r claf. Ystyriwch y canlynol:
Pa gefnogaeth sydd ganddyn nhw? Beth yw eu hanghenion a'u pryderon ar hyn o bryd?
A ydynt yn gwybod sut i gael mynediad at gyfleusterau, cymorth ymarferol neu ychwanegol, yn y cartref, yn yr ysbyty neu leoliad arall?
A ydyn nhw'n ymwybodol o'r gefnogaeth profedigaeth sydd ar gael, os oes angen?
Os yn y cartref, a ydyn nhw'n gwybod beth i'w wneud pan fydd y person yn marw?
Cofnodwch y cynllun y cytunwyd arno:

Gwirio marwolaeth ddisgwyliedig:

A ellir dilysu marwolaeth ddisgwyliedig gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n briodol (ac eithrio meddyg teulu neu feddyg ysbyty) o dan drefniadau 'marwolaeth ddisgwyliedig'? Gellir Na ellir

Archwiliwr Meddygol / Crwner:

A fydd y farwolaeth yn disgyn o dan y rheoliadau statudol i gyfeirio at y crwner? Bydd Na fydd
Cofnodwch y rheswm a thrafodaethau gyda'r tîm a'r rhai sy'n bwysig i'r claf:

Os oes angen cyfeirio at y crwner / archwiliwr meddygol, ydych chi wedi gadael i'r berthynas agosaf wybod?
Ydw Nac ydw Amherthnasol

A yw'r perthynas agosaf yn gwybod beth fydd yn digwydd ar ôl marwolaeth? Ydi Nac ydi
(Noder. Am resymau diwylliannol / crefyddol, efallai y bydd angen tystysgrifau marwolaeth brys a gofal penodol ar gorff gan rai teuluoedd)

PWYSIG:

- Os yw'r sefyllfa glinigol yn gwella ac **na ystyrir** bod y claf **bellach yn ystod dyddiau olaf ei fywyd**, yna dylai'r tîm clinigol drafod cynllun rheoli meddygol amgen. **Ni ddylid defnyddio'r** canllawiau Penderfyniadau Gofal **mwych**. Dylid nodi hyn trwy dynnu llinell trwy bob tudalen, eu llofnodi a'u dyddio.
- Llenwch a dychwelwch daflen Adolygu Achos ar gyfer pob claf ar ôl marwolaeth, os gwelwch yn dda.

Enwau'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am yr achos:

Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol (HCP) sy'n cwblhau'r ddogfen:
Enw MEWN PRIF LYTHRENAU: **Llofnod:**
Dyddiad:
Rôl:

Ymgynghorwyd â'r uwch benderfynwr clinigol sydd wedi cytuno i'r cynllun:
Enw MEWN PRIF LYTHRENAU: **Llofnod:**
Dyddiad:
Rôl: